

2011 Rhif. 257 (Cy.48)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 41, Pentyla i Gyffordd 38, Margam, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed

9 Chwefror 2011

Yn dod i rym

21 Chwefror 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y draffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o’r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (1984)(1) a phob pŵer galluogi arall(2) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Chwefror 2011 a’i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 41, Pentyla i Gyffordd 38, Margam, Castell-nedd Port Talbot 2011 .

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n cychwyn am 20.00 o’r gloch ar 21 Chwefror 2011 ac sy’n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu symud ymaith.

ystyr “y darnau o’r draffordd” (“*the lengths of the motorway*”) yw’r darnau o draffordd yr M4 o Gyffordd 41, Pentyla i Gyffordd 38, Margam ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru ar y darnau o'r draffordd.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato ar waith.

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 9 Chwefror 2011.

J COLLINS

Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1984 p.27: Amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

Darnau o Draffordd yr M4 o Gyffordd 41, Pentyla i Gyffordd 38, Margam ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

i) Y darn hwnnw o brif gerbyttfordd y draffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt wrth drwyn y slipffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 41, Pentyla hyd at bwynt wrth drwyn y slipffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38, Margam.

ii) Y darn cyfan o slipffordd ymuno tua'r dwyrain y draffordd wrth Gyffordd 40, Taibach.